# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 7**

AMRYWIOL

*Darpariaeth bellach mewn perthynas â'r dreth*

VALID FROM 01/04/2018

**89 Pŵer i osod atebolrwydd eilaidd ar reolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i reolwr safle tirlenwi awdurdodedig, neu ran o safle o'r fath, dalu'r dreth sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy a wneir ar y safle neu'r rhan o dan sylw, ac mewn cysylltiad â hynny.

(2) Mewn perthynas â rheolwr safle tirlenwi awdurdodedig neu ran o safle o'r fath—

(a) mae'n berson, ac eithrio gweithredwr y safle, sy'n penderfynu, neu sydd â'r hawl i benderfynu, pa warediadau deunyddiau y caniateir eu gwneud ledled y safle neu'r rhan o dan sylw, ond

(b) nid yw'n cynnwys person sy'n penderfynu, neu sydd â'r hawl i benderfynu, pa warediadau a wneir dim ond oherwydd bod y person yn gyflogai neu'n asiant i berson arall.

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/10/2017. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 89. (See end of Document for details)*

(a) sy’n ei gwneud yn ofynnol i ACC gael ei hysbysu os yw person yn dod, neu’n peidio â bod, yn rheolwr ar safle tirlenwi awdurdodedig neu ran o safle o’r fath;

(b) ynglŷn â’r amgylchiadau pan fo’n ofynnol i reolwr dalu treth;

(c) ar gyfer pennu swm y dreth y mae’n ofynnol i reolwr ei dalu;

(d) ynglŷn â’r berthynas rhwng gofyniad i reolwr dalu treth ac unrhyw rwymedigaeth ar weithredwr y safle tirlenwi awdurdodedig i dalu treth;

(e) ynglŷn â’r weithdrefn i’w gwneud yn ofynnol i reolwr dalu treth;

(f) ynglŷn â pha bryd y mae’n rhaid talu’r dreth;

(g) ynglŷn â dyletswyddau i gadw cofnodion a’u storio’n ddiogel;

(h) ar gyfer cosbau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â’r rheoliadau;

(i) ar gyfer adolygiadau ac apelau.

(4) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy’n ymwneud â’r dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 89 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/10/2017. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 89.